Gweithdrefn Gwirio Mewnol SNAP Cymru

Gwirio Mewnol

Pwrpas Gwirio Mewnol yw sefydlu system a ddylunnir gan y ganolfan ar gyfer monitro ansawdd ein darpariaeth Agored mewn ffordd systemataidd - er mwyn sicrhau ei bod yn gyson, yn deg ac yn ddibynadwy ar draws yr holl Aseswyr yn ein canolfan.

Mae'r Gwirydd Mewnol wrth galon Sicrhau Ansawdd Achredu Agored – o fewn y fframwaith cenedlaethol ac yn systemau ansawdd a rheoli'r ganolfan gymeradwy. Mae'r rôl yn ganolog i gynnal hyder y cyhoedd ym mhob uned achrededig.

- Mae'r Gwirydd Mewnol yn ffactor allweddol yn y broses o reoli risgiau a sicrhau wrth hawlio credydau ar ran dysgwyr, eu bod wedi cyrraedd y safon a gytunir.

- Rhaid i Wirwyr Mewnol fod yn gallu asesu Unedau Agored a rhaid bod ganddynt brofiad priodol.

Bydd system Gwirio Mewnol SNAP Cymru yn sicrhau bod arferion a phenderfyniadau asesu'n cael eu hadolygu a'u gwerthuso'n rheolaidd er mwyn cynnal dilysrwydd dyfarnu'r credyd.

Mae ein Gwirwyr Mewnol yn cadarnhau'r penderfyniad i ddyfarnu credydau; **NID** ydynt yn gwneud y penderfyniad Asesu.

Mae Gwirio Mewnol yn cadarnhau bod sicrwydd ansawdd y paratoadau hyfforddi, ei gyflwyniad, ei asesiad, ei ddogfennaeth a chyflwyno tystysgrif yn unol â gweithdrefnau Agored Cymru.

Ceir tair agwedd ar rôl y Gwirydd Mewnol:

1. Gwirio Asesiad
2. Datblygu a chefnogi aseswyr a chymedrolwyr (Swyddogion Datblygu Uwch)
3. Rheoli ansawdd cyflwyno unedau Agored Cymru

1. Gwirio Asesiad

Gall amledd Gwirio Mewnol fod yn hyblyg, er cynhelir gweithgareddau Gwirio/Cymedroli Mewnol SNAP Cymru bob tymor academaidd. Mae hyn yn sicrhau bod gweithdrefnau cyson yn eu lle er mwyn darparu adborth yn rheolaidd i'r tiwtoriaid a/neu aseswyr, ac er mwyn cael effaith sylweddol ar safonau.

Samplo

Bydd Asesiadau Samplo'n golygu adolygu ansawdd dyfarniadau aseswyr yn y cyfnod cyfamserol (yn ystod y broses o gyflwyno'r uned) ac yn y cyfnod crynodol (ar ddiwedd yr uned). Rhaid i'r Gwirwyr Mewnol sicrhau nad yw'r broses yn drwm o ran deunydd ar ddiwedd y cwrs, er bod y broses yn neilltuo'r cyfle i gynnal ymarferion adfyfyriol.

Samplo cyfamserol

Bydd y Gwirydd Mewnol, wedi'i gefnogi gan y Cymedrolwyr Mewnol (Swyddogion Datblygu Uwch) yn:

- ✓ Adolygu aseiniadau er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr y cyfle i fodloni holl feini prawf yr aseiniad
- ✓ Adolygu'r amserlen asesu
- ✓ Adolygu'r adborth a roddwyd i'r dysgwr gan yr aseswr
- ✓ Adolygu'r gweithgareddau asesu
- ✓ Adnabod unrhyw anghenion o ran hyfforddi sydd gan y tiwtor neu'r aseswr
- ✓ Adnabod a rhannu arferion da

Strategaeth Grynodol

Mae hyn yn golygu adolygu ansawdd y penderfyniad asesu drwy werthuso sut mae'r aseswr wedi cyrraedd ei benderfyniad.

Rhaid i'r Gwirydd Mewnol fod yn gallu dilyn trywydd archwilio sy'n arddangos yn glir fod yr aseswr wedi gwirio bod yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd yn bodloni rheolau tystiolaethu.

Rhaid i'r dystiolaeth gael ei chadarnhau gan yr aseswr er mwyn dweud ei bod yn:

- ✓ Ddilys – yn berthnasol i'r safonau y caiff cymhwysedd ei fesur yn eu herbyn
- ✓ Cywir – wedi'i chynhyrchu gan y dysgwr
- ✓ Dibynadwy – yn adlewyrchu'n gywir, lefel y perfformiad a arddangoswyd yn gyson gan yr ymgeisydd
- ✓ Cyfredol
- ✓ Digonol – yn bodloni holl ofynion y safonau'n llawn
- ✓ Yn addas at bwrpas
- ✓ Cynhwysfawr
- ✓ Cyson

Strategaeth Samplo

Bydd y sampl yn **cynnwys yr holl safleoedd/lleoliadau asesu, yr holl gyrsiau a'r holl unedau**. Caiff yr holl ystod o ddulliau asesu a ddefnyddir ar gyfer unrhyw uned eu samplo.

Bydd y strategaeth samplo'n ystyried y canlynol:

- ✓ Maint y sampl a fydd ei angen er mwyn sicrhau ei ddibynadwyedd
- ✓ Yr amryw ddulliau asesu a ddefnyddir
- ✓ Lefel yr unedau a'r credydau
- ✓ Y Dysgwyr – cwrs byr, cwrs hyblyg, oedran, cynhwysedd (lle ceir addasiadau rhesymol/trefniadau arbennig) a.y.b.
- ✓ Yr holl unedau, yn enwedig yr unedau lle nodwyd problemau o ran materion a godwyd yn dilyn Dilysiad blaenorol
- ✓ Unedau newydd ac unedau a adolygwyd
- ✓ Ystod o gyraeddiadau

Dylai maint y sampl fod yn ddigonol er mwyn sicrhau bod yr holl faterion yn y rhestr uchod wedi cael eu hystyried.

Mae AGORED wedi awgrymu, fel rheol, y defnyddir ail isradd neu 10%

Lle ceir materion o ran uned

Er enghraifft, os ceir meini prawf sy'n anodd ei hasesu, neu lle y caiff cyraeddiadau dysgwyr eu hasesu mewn portffolio grŵp, fel yn achos yr uned PARCH, dylid trafod yr holl faterion â'r aseswyr a'u datrys yn gynnar. Yn yr amgylchiadau hyn, dylid edrych ar yr holl arferion a phenderfyniadau'n ymwneud ag asesiadau.

Monitro Asesiadau

Dylai'r Gwirydd Mewnol (gyda chefnogaeth y Cymedrolwyr Mewnol / Swyddogion Datblygu Uwch) anelu at fonitro'r holl aseswyr / tiwtoriaid yn flynyddol, naill ai drwy

arsylwi neu drafodaeth broffesiynol a thrwy ansawdd cofnodion Asesu. Cysylltir hyn â'n rhaglen Hyfforddiant Asesu parhaus.

Safoni Dyfarniadau Asesu

Bydd y Gwirwyr Mewnol yn cynnal adolygiadau safoni â'r holl Gymedrolwyr ac Aseswyr. Dylid cadw cofnod o'r fath ddigwyddiadau neu ddigwyddiadau Tasglu drwy ddogfennu'r fethodoleg.

2. Datblygu a Chefnogi Aseswyr

Bydd y Gwirwyr Mewnol yn sicrhau bod gan yr holl Aseswyr:

- ✓ Gopïau o ddogfennaeth a gofnodwyd, gan gynnwys offer asesu, ffurflenni adborth a.y.b.
- ✓ Ymwybyddiaeth o'r broses o Gymedroli a Gwirio Mewnol a deall eu rôl yn hyn o beth.
- ✓ Hyfforddiant cynefino ar gyfer Asesu/Cymedroli a Gwirio.
- ✓ Cefnogaeth a chyngor parhaus o safbwynt hygyrchedd ac unrhyw ofynion asesu arbennig.
- ✓ Cefnogaeth o ran unrhyw anghenion datblygu gan gynnwys adnabod unrhyw hyfforddiant neu fentora ychwanegol sydd eu hangen.

3. Rheoli Ansawdd y Cyflwyno

Mae'r Gwirydd Mewnol yn chwarae rôl sicrhau ansawdd o fewn darpariaeth hyfforddiant SNAP Cymru, gan sicrhau bod asesiadau a dogfennau Gwirio Mewnol yn cael eu cwblhau'n gywir, yn ôl y weithdrefn ac yn cael eu ffeilio'n briodol.

Dylid cadw holl ddogfennau asesu'r dysgwyr, y rhai a gymedrolwyd a rhai'r gwirydd mewnol, gan gynnwys cofnodion o gofrestriadau a thystysgrifau a ddyfarnwyd am 3 blynedd. Dylai'r rhain fod ar gael os gofynnir amdanynt gan wirwyr allanol, Agored Cymru a'r dysgwr.

Dylid cadw samplau o gopïau o waith dysgwyr am 3 blynedd.

Mae'r gwirwyr mewnol yn darparu cyswllt ffurfiol rhwng y tiwtoriaid a'r aseswyr; y cymedrolwyr (swyddogion datblygu uwch), y gwirwyr allanol a'r corf dyfarnu.

Bydd y gwirwyr mewnol yn cynnal a chadw'r gronfa ddata i ddysgwyr ac yn gwneud yr holl benderfyniadau ynghylch argymhellion o ran dyfarnu credydau.

Crynodeb o Rôl y Gwirydd Mewnol

Bydd gwirwyr mewnol yn gyfrifol ac yn atebol am:

- Samplo tystiolaeth o benderfyniadau ar asesiadau a wneir gan yr holl aseswyr ar draws bob uned yn rheolaidd; rhaid i'r broses samplo gynnwys peth arsylwi uniongyrchol ar arferion asesu.
- Gosod gweithdrefnau yn eu lle er mwyn datblygu dehongliad cyffredin o'r gofynion asesu rhwng aseswyr
- Monitro a chefnogi gwaith yr aseswyr o fewn SNAP Cymru
- Cynnal a chadw cofnodion diweddar o wirio mewnol a gweithgarwch samplo a sicrhau bod y rhain ar gael at bwrpas gwirio allanol er mwyn monitro a sicrhau cysondeb o ran dehongli a chymhwyso safonau
- Hwyluso datblygiad a hyfforddiant staff priodol ar gyfer aseswyr
- Darparu adborth i'r gwirydd allanol o ran effeithiolrwydd asesiadau, gan sicrhau bod unrhyw gamau cywiro sydd eu hangen ar AGORED yn cael eu gweithredu o fewn y terfynau amser a gytunwyd
- Gwirio tystiolaeth nad ydynt wedi ei hasesu eu hunain.

Bydd aseswyr yn gyfrifol ac yn atebol am:

- Reoli'r system asesu – o gynllunio asesiadau i farcio a chofnodi penderfyniadau asesu, fel sy'n ofynnol gan y corff dyfarnu.

Rhestr Wirio Paratoadau SNAP Cymru ar gyfer Ymweliad y Gwirydd Allanol

Trefniadau ymlaen llaw

- ❏ Cadw ystafell addas er mwyn i'r gwirydd allanol ei defnyddio
- ❏ Yr aseswyr, dysgwyr a'r dilyswyr mewnol yn cael eu hysbysu ynghylch yr angen iddynt fod yn bresennol yn ystod yr ymweliad
- ❏ Enwau'r holl ddysgwyr ar gyfer yr holl gredydau i'w gwirio'n allanol gan y gwirydd allanol a'u hanfon at y Swyddog Datblygu Uwch er mwyn gwneud cais am gopïau o'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad neu waith papur ynghylch cymedroli
- ❏ Manylion ynghylch strwythur staffio'r ganolfan
- ❏ Copi o adroddiad diwethaf y gwirydd allanol ac unrhyw adroddiadau perthnasol eraill
- ❏ Gwirio'r pwyntiau gweithredu blaenorol a sicrhau bod tystiolaeth ar gael ynghylch cwblhau erbyn y dyddiad a nodwyd

Trefniadau'r Gwirydd Mewnol

- ❏ Gweithdrefnau ar gyfer asesiad cychwynnol
- ❏ Strategaeth samplo; gweithgaredd Cymedroli/Gwirio Mewnol wedi'i gynllunio a'i gwblhau
- ❏ Adborth i'r aseswyr – angen gweithredu ac wedi gweithredu
- ❏ Holl gofnodion gorffenedig y gwirydd mewnol a'r aseswr
- ❏ Nodiadau ynghylch unrhyw weithgarwch ers yr ymweliad diwethaf
- ❏ Cofnodion cyfarfodydd y tîm asesu/cymedroli gan gynnwys gweithgarwch o ran safoni

Samplo Portffolio

- ❏ Mae portffolios dysgwyr ar gael
- ❏ Trywydd archwiliadwy
- ❏ Rolau a chyfrifoldebau aseswyr gan gynnwys pynciau a/neu unedau
- ❏ Holl gofnodion y dysgwyr wedi eu llofnodi gan y bobl briodol (gan gynnwys tystion a dysgwyr eraill pan fo'n briodol), sy'n cynnwys dogfennau asesiad ffurfiannol a chrynodol

Ymgeiswyr ar gael i'w cyfweld (gyda phortffolio)

- ❏ Manylion ynghylch anghenion/cynlluniau hyfforddi'r dysgwyr
- ❏ Manylion ynghylch cynlluniau asesu'r dysgwyr gyda diweddariadau ac adolygiadau